

Amserlen ar gyfer ystyried Cyllideb 2025-26

Gorffennaf 2024

Ar 4 Gorffennaf 2024, ysgrifennodd y Trefnydd a'r Prif Chwip at y Pwyllgor Busnes i nodi dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyhoeddi'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26, yn unol â Rheol Sefydlog 20.2.

Yn unol â Rheol Sefydlog 20.4, ymgynghorodd y Pwyllgor Busnes â'r Pwyllgor Cyllid. Ar 16 Gorffennaf 2024, ar ôl ystyried ymateb y Pwyllgor Cyllid, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlen arfaethedig Llywodraeth Cymru (gweler isod) ar gyfer ystyried cyllideb 2025-26. Wrth wneud hynny, nododd y Pwyllgor Busnes y gall fod yn bosibl addasu'r amserlen, o dan Reol Sefydlog 20.6, yn ddiweddarach pan fydd bwriadau Llywodraeth y DU yn gliriach o ran digwyddiad cyllidol a ragwelir yn yr hydref.

	Dyddiad
Gosod cynigion amlinellol ar gyfer cyllideb y Llywodraeth	Erbyn 10 Rhagfyr 2024
Gosod cynigion manwl ar gyfer cyllideb y Llywodraeth	Erbyn 10 Rhagfyr 2024
Y dyddiad cau i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad ar gynigion amlinellol cyllideb y Llywodraeth	3 Chwefror 2025
Y dyddiad cau i'r pwyllgorau eraill gwblhau eu hystyriaeth o'r cynigion manwl ar gyfer y gyllideb	3 Chwefror 2025
Cyflwyno cynnig blynyddol y gyllideb	25 Chwefror 2025

